WHC (2025) 008

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Statws:** Gweithredu / Gwybodaeth

**Categori:** Iechyd y Cyhoedd

**Teitl: Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Cyflwyno Cynllun Trwyddedu Mandadol Cenedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru**

**Dyddiad dod i ben / adolygu:** ddim yn gymwys

**I'w weithredu gan:**

- Prif Weithredwyr Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.
- Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.
- Cyfarwyddwyr Meddygol Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.
- Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.
- Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.
- Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddorau Iechyd Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.
- Prif Fferyllwyr Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd.
- Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Cyfarwyddwr Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Ymarferwyr cyffredinol.
- Fferyllfeydd cymunedol.
- Tîm y Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Phresgripsiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Practisau Deintyddol.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025

**Er gwybodaeth i'r canlynol:**

- Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar/Prif Weithredwr GIG Cymru.
- Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru.
- Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru.
- Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu.
- Y Coleg Nyrsio Brenhinol.
- Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.
- Fferylliaeth Gymunedol Cymru.
- Cymdeithas Ddeintyddol Prydain.
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant.
- Coleg Brenhinol y Bydwragedd.
- Prif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i'w ddosbarthu i Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Awdurdodau Lleol.

**Anfonwr:** Dr Keith Reid, y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol (Iechyd y Cyhoedd)

**Enwau Cyswllt yn Llywodraeth Cymru:**

Diogelu Iechyd,
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays,
Caerdydd.
CF10 3NQ

TriniaethauArbennig@llyw.cymru

**Dogfennau amgaeedig:** Nodyn Briffio Triniaethau Arbennig ar gyfer Byrddau Iechyd, Atodiad 1

Annwyl Gydweithwyr

**Par: Rhan 4 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Cyflwyno Cynllun Trwyddedu Mandadol Cenedlaethol ar gyfer Triniaethau Arbennig yng Nghymru**

Ysgrifennaf i'ch hysbysu am gyflwyno'r darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth iechyd y cyhoedd a ddaeth i rym ar 29 Tachwedd 2024 ac i ofyn ichi godi ymwybyddiaeth o'r gyfundrefn reoleiddiol newydd hon ymhlith eich staff mewn adrannau microbioleg a dermatoleg, meddygfeydd teulu, adrannau damweiniau ac achosion brys ac adrannau 'y tu allan i oriau' eraill, a fferyllfeydd cymunedol.

Diffinnir triniaethau arbennig o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ac maent yn cynnwys aciwbigo (gan gynnwys nodwyddo sych), tyllu'r corff (gan gynnwys tyllu clust), electrolysis a thatŵio (gan gynnwys colur lled-barhaol). Maent yn driniaethau esthetig neu therapiwtig nad ydynt yn llawfeddygol, sy'n golygu gwneud trydylliad mewn meinwe, croen neu bilen fwcaidd a mewnosod nodwyddau, gemwaith, gwrthrychau neu inc neu bigmentau parhaol/lled-barhaol a gallant achosi niwed i iechyd dynol.

Gall y triniaethau arbennig hyn fod yn gysylltiedig ag ystod o effeithiau iechyd niweidiol heintus a rhai nad ydynt yn heintus sydd, yn hanesyddol, wedi eu tangofnodi a'u camddiagnosio, gan arwain at rai achosion o driniaeth anghywir ac oedi wrth wella.

Dangoswyd y bygythiad i iechyd y cyhoedd ddiwedd 2014 pan nodwyd bod achos difrifol o Pseudomonas yn gysylltiedig â sefydliad tatŵio a thyllu'r corff yng Nghasnewydd. Effeithiodd yr achos hwnnw ar nifer sylweddol o bobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed a gwelwyd rhai ohonynt yn cael eu derbyn i'r ysbyty â heintiau ôl-dyllu difrifol a oedd angen llawdriniaeth ac, mewn rhai achosion, adlunio. Costiodd yr ymchwiliad i'r achos yn unig (profi 841 o gleientiaid o'r stiwdio) fwy na £240,000 i'r GIG. Amlygodd yr achos pa mor agored i niwed yw pobl ifanc mewn perthynas â'r arferion hyn ac effaith heintiau y gwyddys eu bod yn gwrthsefyll gwrthfiotigau. Gwnaeth canfyddiadau'r ymchwiliad helpu i lywio'r ddeddfwriaeth hon.

Bwriad y nodyn briffio cysylltiedig yw eich cefnogi i wneud y canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o'r effeithiau andwyol cyffredin ar iechyd sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig, a sut y dylid rhoi gwybod am y rhain pan gânt eu canfod wrth ddarparu gofal y GIG.


- Bod yn ymwybodol o'r opsiwn i gleientiaid, sydd wedi cael eu gwrthod am driniaeth arbennig gan yr ymarferydd triniaethau arbennig yn seiliedig ar wybodaeth iechyd a ddatgelwyd mewn ymgynghoriad cyn y driniaeth ond sydd, serch hynny, yn dymuno bwrw ymlaen â'r driniaeth, ymgynghori â **meddyg teulu neu ymgynghorydd meddygol** a chael eu cyngor ysgrifenedig ar y risgiau cysylltiedig (os o gwbl) o gael y driniaeth. Nid yw'r gwaith hwn yn cael ei ystyried yn waith y GIG ac ni ddylai amharu ar ddarpariaeth y GIG na thynnu sylw oddi arni.

- Derbynnir y bydd meddygon teulu sy'n cytuno i gynnig cyngor ysgrifenedig ar y sail hon yn fodlon bod ganddynt yr indemniad priodol ar waith i gwmpasu'r gwaith preifat hwn.

- Cyfeirio at ddolenni defnyddiol i wybodaeth bellach am y cynllun trwyddedu, gweminarau atal a rheoli heintiau, a dermatoleg.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech drefnu i'r holl staff a gwasanaethau perthnasol gael yr wybodaeth hon.

Yn gywir



**Dr Keith Reid, Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Cymru**

**NODYN BRIFFIO TRINIAETHAU ARBENNIG AR GYFER BYRDDAU IECHYD**

**EFFEITHIAU IECHYD NIWEIDIOL:**

Mae effeithiau iechyd niweidiol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (aciwbigo, tyllu'r corff, electrolysis a thatŵio) yn dra hysbys ac yn parhau i gael eu hadrodd:

- Gall arferion hylendid gwael arwain at heintiau croen bacterol sy'n gysylltiedig yn gyffredin â heintiau staffylococol a streptococol o amgylch lleoliad y driniaeth arbennig. Mewn rhai achosion, mae hyn wedi arwain at achosion o sepsis.

- Mae heintiau croen sy'n gysylltiedig â Pseudomonas sp. a Mycobacterium chelonae sy'n gysylltiedig â thyllu'r corff a thatŵio hefyd yn dra hysbys. Mae angen cynnal biopsi croen er mwyn diagnosio Mycobacterium chelonae yn gywir.

- Heintiau feirysol a gludir yn y gwaed, gan gynnwys Hepatitis B ac C, a HIV.

- Adweithiau alergaidd sy'n gysylltiedig yn gyffredin â chynhwysion inc tatŵ, pigmentau colur lled-barhaol a gemwaith a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â phob math o dyllu'r corff. Gall adweithiau alergaidd ddigwydd am nad ymgynghorir â chleientiaid yn ddigonol cyn i'r driniaeth gael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth am effeithiau iechyd niweidiol ar gael ar y dolenni isod:

Adolygiad cyflym o risgiau iechyd corfforol sy'n gysylltiedig â thriniaethau arbennig (tatŵio, tyllu corff, aciwbigo, electrolysis) | Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru

Pre-print_RR00018_Special procedures December 2023.pdf

Mae gwybodaeth ddermatolegol ddefnyddiol ar gael ar y dolenni canlynol:

Cyflyrau Croen A-Z | DermNet

Patient Information Leaflets - British Association of Dermatologists

**Y CYNLLUN TRWYDDEDU MANDADOL**

Awdurdodau lleol (swyddogion trwyddedu a swyddogion iechyd yr amgylchedd) sy'n gyfrifol am reoli a gorfodi'r cynllun trwyddedu mandadol hwn.

Mae Tîm Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a swyddogion iechyd yr amgylchedd arbenigol awdurdodau lleol yn gyfrifol am ymchwilio i honiadau o effeithiau iechyd niweidiol heintus a rhai nad ydynt yn heintus sy'n gysylltiedig â'r pedair triniaeth arbennig hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau anstatudol i'w defnyddio gan ddeiliaid trwyddedau, deiliaid tystysgrifau cymeradwyo, cyrff y diwydiant ac awdurdodau lleol i gefnogi'r holl randdeiliaid i gydymffurfio â gofynion y cynllun trwyddedu a'r Rheoliadau cysylltiedig. Mae'r **ddolen** hon yn darparu rhagor o wybodaeth am y cynllun trwyddedu.

Mae gwybodaeth am y cynllun trwyddedu hefyd ar gael ar wefannau awdurdodau lleol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid i lunio dau becyn e-ddysgu gweminarau i gefnogi'r diwydiant i gydymffurfio â'r broses o ymgynghori â chleientiaid, darparu cyngor ôl-ofal i gleientiaid, a mesurau atal a rheoli heintiau sy'n ofynnol gan y cynllun trwyddedu. Mae'r rhain ar gael **yma**.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar atal a rheoli heintiau sy'n benodol i driniaethau arbennig ac i gefnogi'r diwydiant ac awdurdodau lleol. Mae’r rhain ar gael ar **wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru**.

Mae'n ofynnol i ddeiliaid trwyddedau triniaethau arbennig ymgynghori â'u cleient cyn cynnal y driniaeth arbennig. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cofnodi a thrafod gwybodaeth am gyflyrau iechyd perthnasol neu arwyddocaol a manylion meddyginiaethau ar bresgripsiwn. Mewn rhai amgylchiadau, pan na fydd yn glir o hyd a yw'n ddiogel bwrw ymlaen â'r driniaeth arbennig, bydd deiliad y drwydded yn rhoi cofnod ysgrifenedig i'r cleient o ganlyniad yr ymgynghoriad â'r cleient a bydd yn nodi'r rhesymau iechyd penodol sy'n disgrifio ar ba sail nad yw deiliad y drwydded yn fodlon rhoi'r driniaeth.

Mae gan y cleient yr opsiwn i ymgynghori â meddyg teulu neu ymgynghorydd meddygol y tu allan i'r GIG i gael cyngor ysgrifenedig ar y risgiau sy'n gysylltiedig â chael y driniaeth yn seiliedig ar y rhesymau iechyd a roddwyd gan ddeiliad y drwydded. Nid yw'r broses hon o ymgynghori a rhoi cyngor ysgrifenedig yn cael ei hystyried yn waith y GIG ac efallai y bydd y gweithiwr meddygol proffesiynol yn codi ffi ar yr unigolyn os yw'n dewis ymgymryd â'r gwaith hwn. Nid oes unrhyw rwymedigaeth gontractiol ar y gweithwyr meddygol proffesiynol hynny i ddarparu cyngor o'r fath ac mae ganddynt yr hawl i wrthod. Derbynnir y bydd angen i feddygon teulu sy'n cytuno i gynnig cyngor ysgrifenedig ar y sail hon fod yn fodlon bod ganddynt yr indemniad priodol ar waith i gwmpasu'r gwaith preifat hwn. Os bydd y meddyg teulu neu'r ymgynghorydd meddygol yn fodlon darparu cyngor ysgrifenedig ar y sail hon, bydd angen i'r cleient ddarparu hynny i ddeiliad y drwydded fel y gall ailystyried a yw'n fodlon rhoi'r driniaeth arbennig i'r cleient.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses o ymgynghori â chleientiaid, gan gynnwys cadw cofnodion cleientiaid yn ddiogel a gofynion trwyddedu eraill ar gael yn y dogfennau canllaw i ymarferwyr yma.

## RÔL Y BWRDD IECHYD

Unigolion sy'n ymgyflwyno effeithiau iechyd niweidiol sy'n gysylltiedig â thriniaeth arbennig

Dylai unrhyw staff sy'n dod yn ymwybodol bod claf yn dioddef o unrhyw haint neu'n debygol o fod yn dioddef o unrhyw haint y credir ei fod yn gysylltiedig â chael triniaeth arbennig:

- hysbysu Tîm Diogelu Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru (E-bost: AWARE@wales.nhs.uk)
- hysbysu swyddog iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol lle credir bod yr achos wedi digwydd (gweler **Atodiad 1** am fanylion cyswllt ar gyfer y 22 o awdurdodau lleol Cymreig).

Dylid adrodd achosion o glefyd nad yw'n heintus, gan gynnwys anafiadau corfforol ac adweithiau alergaidd, yn uniongyrchol i adrannau iechyd yr amgylchedd yr awdurdod lleol lle credir bod yr achos wedi digwydd.

## ATODIAD 1:

## Manylion cyswllt swyddfeydd iechyd yr amgylchedd awdurdodau lleol

| | |
|---|---|
| **Ynys Môn** | Ehealth@ynysmon.llyw.cymru |
| **Gwynedd** | bwyd@gwynedd.llyw.cymru |
| **Conwy** | foodsafety-healthandsafety@conwy.gov.uk |
| **Sir Ddinbych** | specialprocedures@denbighshire.gov.uk |
| **Sir y Fflint** | Health.Safety@flintshire.gov.uk |
| **Wrecsam** | specialprocedures@wrexham.gov.uk |
| **Ceredigion** | publicprotection@ceredigion.gov.uk |
| **Powys** | environmental.health@powys.gov.uk |
| **Sir Benfro** | communicabledisease@pembrokeshire.gov.uk |
| **Sir Gaerfyrddin** | Communicabledisease@carmarthenshire.gov.uk |
| **Castell-nedd Port Talbot** | ehd@npt.gov.uk |
| **Abertawe** | foodandsafety@swansea.gov.uk |
| **Pen-y-bont ar Ogwr (Cydwasanaethau Rheoleiddiol)** | communicabledisease@cardiff.gov.uk |
| **Rhondda Cynon Taf** | food.healthandsafety@rctcbc.gov.uk |
| **Merthyr Tudful** | Public.health@merthyr.gov.uk |
| **Caerffili** | foodhealthsafety@caerphilly.gov.uk |
| **Blaenau Gwent** | environmental.health@blaenau-gwent.gov.uk |
| **Torfaen** | foodandhealthprotection@torfaen.gov.uk |
| **Sir Fynwy** | environmentalhealth@monmouthshire.gov.uk |
| **Bro Morgannwg (Cydwasanaethau Rheoleiddiol)** | communicabledisease@cardiff.gov.uk |
| **Caerdydd (Cydwasanaethau Rheoleiddiol)** | communicabledisease@cardiff.gov.uk |
| **Casnewydd** | infectious.disease@newport.gov.uk |